# PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 26.04.10

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd W Tudor Owen (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr**:** Evie Morgan Jones, J R Jones, Eryl Jones-Williams, Dewi Llewelyn, Ieuan Roberts, W Gareth Roberts a Gwilym Williams.

**Hefyd yn Bresennol:** Amlyn ab Iorwerth (Rheolwr Trwyddedu), Alwyn Thomas a Robert Taylor (Swyddogion Gorfodi Trwyddedu), Siôn Huws (Swyddog Priodoldeb) ac Eleri Parry (Uwch Swyddog Pwyllgor)

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Louise Hughes a Peter Read

**1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol

**2. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd ar 23 Tachwedd 2009 fel rhai cywir.

**Yn codi**

**Eitem 5 – Cofnodion Is-bwyllgor Trwyddedu 21 Hydref 2009**

(i) Nododd yr aelod lleol bod gwrandawiad yr apêl yn erbyn penderfyniad yr is-bwyllgor i ddiddymu Trwydded Eiddo Bangor Blues Sports Bar wedi ei ohirio ymhellach. Nododd bod yr eiddo yn dal i fod ar agor a'i fod yn anfodlon iawn gyda'r sefyllfa. Eglurodd ei fod yn derbyn llawer o gwynion ynglŷn â'r mater, a gofynnodd am gefnogaeth yr is-bwyllgor i anfon llythyr o gŵyn ynglŷn â'r sefyllfa.

(ii) Adroddodd yr Uwch Arweinydd Portffolio ei fod yn rhannu pryderon yr aelod lleol. Nododd ei fod wedi ysgrifennu at y Gweinidog Cyfiawnder i fynegi anfodlonrwydd ynglŷn ag oedi i wrando apeliadau, ac i fynegi pryder ynglŷn â'r trefniadau'n gyffredinol. Nid oedd wedi derbyn ymateb oddi wrth y Gweinidog hyd yn hyn.

Eglurodd ei fod yn anfodlon iawn bod yr eiddo yn dal i fod ar agor, a bod ymddygiad gwrth cymdeithasol ac achosion o drosedd ac anhrefn yn parhau yno. Mynegodd gonsyrn bod problemau dwys yn bodoli yn rheolaeth yr eiddo, ac o ganlyniad bod yr eiddo'n methu cynnal egwyddorion y Ddeddf.

(iii) Adroddodd y Rheolwr Trwyddedu ei fod ar ddeall bod y gwrandawiad i'w gynnal yng Nghaernarfon ar 7 ac 8 Medi, oherwydd bod y Llys o'r farn y bydd yr achos yn parhau am ddeuddydd gan fod tystiolaeth newydd i law.

Nododd aelod ei fod yn gresynu bod gwrandawiad apêl yn cael eu hystyried fel achos o'r newydd, gyda thystiolaeth newydd yn cael ei ganiatáu hyd ddyddiad y gwrandawiad. Pwysleisiodd bod y trefniadau'n tanseilio gwaith yr is-bwyllgor, a bod y ddeddf yn ddiffygiol.

(iv) Adroddodd y Rheolwr Trwyddedu ymhellach bod yr aelodau wedi mynegi gryn rwystredigaeth ynglŷn â sawl agwedd o drefniadaeth y llysoedd mewn perthynas ag apeliadau trwydded yng nghyfarfod diwethaf y pwyllgor. Yn unol â dymuniad y pwyllgor, eglurodd iddo anfon llythyr yn gofyn i'r Gwasanaeth Llysoedd gyfarfod gyda Chadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu Canolog ac yntau, i drafod amrywiol faterion trwyddedu. Roedd Clerc yr Ynadon wedi gwrthod cyfarfod.

Cadarnhaodd aelodau eraill eu bod yn ymwybodol o amharodrwydd y gwasanaeth i gydweithredu ac i drafod.

Mynegodd aelodau siom bod Clerc yr Ynadon wedi gwrthod cyfarfod cynrychiolwyr y pwyllgor. Roeddynt yn awyddus i lythyr arall fynd at y Clerc i geisio cyfarfod i drafod amrywiol faterion trwyddedu, gan gynnwys yr oedi annerbyniol i wrando apeliadau, a'r ffaith bod eiddo yn gallu bod ar agor am fisoedd lawer ar ôl i'r Is-bwyllgor Trwyddedu ddiddymu'r drwydded.

**PENDERFYNWYD bod y Rheolwr Trwyddedu yn ymateb i ohebiaeth diweddar Clerc yr Ynadon, ac yn cyfleu siom y Pwyllgor Trwyddedu Canolog am nad oedd yn barod i gyfarfod cynrychiolwyr y Pwyllgor i drafod eu pryderon. Hefyd bod y Rheolwr yn gofyn unwaith eto am gyfarfod i drafod amrywiol faterion trwyddedu gan gynnwys yr oedi i wrando apeliadau.**

**3. COFNODION IS-BWYLLGORAU TRWYDDEDU CANOLOG**

(i) Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod o'r Is-bwyllgor Trwyddedu Canolog a gynhaliwyd ar 21 Hydref 2009 er mwyn nodi a derbyn cywiriad iddynt.

Adroddwyd bod cofnodion yr is-bwyllgor a gyflwynwyd i'r cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor Trwyddedu Canolog wedi eu hail gyflwyno i'r cyfarfod yma, oherwydd y sylweddolwyd yn fuan wedi'r cyfarfod, bod camgymeriad yn y cofnodion. Roedd cofnodion yr is-bwyllgor yn nodi bod Geraint Edwards, Cyfreithiwr y Cyngor yn bresennol yn y cyfarfod, pan nad oedd y swyddog yn bresennol mewn gwirionedd. Eglurwyd bod yr apêl yn erbyn penderfyniad yr is-bwyllgor yn parhau, a bod angen nodi'r cywiriad.

**PENDERFYNWYD nodi a derbyn nad oedd Geraint Edwards, Cyfreithiwr yn bresennol yn yr is-bwyllgor Trwyddedu ar 21 Hydref 2009.**

**(ii)** Cyflwynwyd, er gwybodaeth, cofnodion y cyfarfodydd canlynol o'r Is-bwyllgor Trwyddedu Canolog:-

(a) 19 Tachwedd 2009
(b) 16 Rhagfyr 2009
(c) 25 Mawrth 2010

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth.**

## 3. UCHAFSWM PRISIAU CERBYDAU HACNI

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio ar adolygu prisiau cerbydau hacni.

Adroddwyd gan y Rheolwr Trwyddedu bod y Cyngor wedi derbyn nifer o geisiadau yn gofyn iddynt adolygu prisiau cerbydau hacni yn bennaf oherwydd y cynnydd mewn pris tanwydd, a'u bod yn argymell codi prisiau yn ymwneud â theithio yn unig

Eglurwyd yr hysbysebir y prisiau yn y wasg leol ac oni dderbynnir gwrthwynebiadau dônt yn weithredol ymhen cyfnod o fis.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r prisiau canlynol:-**

| | |
|---|---|
| **Milltir gyntaf** | **2.80** |
| **Pob milltir wedyn** | **2.40** |
| **Amser aros** | **0.25** |
| **Bagiau ychwanegol** | **0.25** |
| **Personol ychwanegol** | **0.40** |
| **Cludo anifeiliaid** | **1.20** |
| **Baeddu cerbyd** | **45.00** |

## 4 DIWYGIADAU I AMODAU POLISI LIMWSINAU HIR

Cyflwynwyd:-

(a) Adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio ar ddiwygio amodau'r Polisi Limwsinau Hir;
(b) Polisi Trwyddedu Limwsinau Hir a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Trwyddedu Canolog ar 17 Awst 2004.

Adroddwyd gan y Rheolwr Trwyddedu:-

(i) bod polisi presennol y Cyngor ar gyfer trwyddedu limwsinau hir yn debyg i drwydded ar gyfer cerbydau hurio preifat, sef roedd am gyfnod o ddim mwy na 10 mlynedd;
(ii) y derbyniwyd sawl cais i adolygu'r polisi o ran y cyfyngiad 10 oed, yn bennaf oherwydd nad oedd limwsinau hir yn gyffredinol yn gwneud yr un lefel o filltiroedd â cherbydau hurio preifat.
(iii) ei fod yn argymell ymestyn caniatâd i gerbydau dros 10 oed ar yr amod eu bod yn derbyn prawf mecanyddol rheolaidd a bod Cymdeithas Limwsinau a Gyrwyr Cenedlaethol a chynrychiolwyr y diwydiant yn lleol yn cydsynio â'r newid arfaethedig i'r polisi;
(iv) bod y broses o adolygu amodau hacni a hurio preifat yn mynd rhagddo ar hyn o bryd, er mwyn ceisio adlewyrchu'r newidiadau sy'n cymryd lle oddi fewn y diwydiant.

Adroddodd  y Rheolwr ymhellach, bod y Cynghorydd Peter Read, oedd yn absennol o'r cyfarfod, wedi ei hysbysu ei fod yn cefnogi'r argymhelliad ond roedd hefyd yn gofyn i'r pwyllgor gefnogi amod pellach i beidio caniatáu gwerthu alcohol yn y limwsinau.

Cyfeiriodd aelod at y  ffaith bod y polisi presennol wedi ei fabwysiadu ers 2004, a bod angen diweddaru rhannau o'r ddogfen mewn perthynas â sicrhau bod gwregysau diogelwch yn cael eu gosod a.y.b.

Hefyd nododd bod y polisi presennol yn gosod uchafswm o 120 modfedd ar limwsin hir, ond  bod y rhan fwyaf o limwsinau erbyn hyn yn 140 modfedd neu fwy, ac awgrymodd y dylid ystyried ymestyn yr uchafswm i 140.

Eglurodd y Swyddog bod y pwyllgor wedi penderfynu cyfyngu'r limwsinau i 120 modfedd yn 2004, er mwyn sicrhau na fydd mwy na 8 person yn cael teithio yn y car.  O safbwynt diogelwch y cyhoedd a gweinyddiaeth y drefn, awgrymodd y Swyddog Trwyddedu y dylid cyfyngu'r drwydded i gerbydau 8 person.  Fodd bynnag cytunodd y Swyddog i gysylltu gyda Chymdeithas Limwsinau a Gyrwyr Cenedlaethol i geisio gwybodaeth ynglŷn ag ymestyn uchafswm limwsinau hir i 140 modfedd.

Nodwyd bod anghysondeb rhwng y ddogfen Gymraeg a'r ddogfen Saesneg a gofynnwyd i'r Rheolwr Trwyddedu sicrhau bod y dogfennau'n cael eu cysoni.

**PENDERFYNWYD**

**(i) Cymeradwyo ychwanegu amod i'r Polisi Limwsinau Hir i ymestyn trwyddedu cerbydau dros 10 oed, yn amodol ar iddynt dderbyn prawf mecanyddol pob 10 wythnos sy'n cyfateb i 5 prawf y flwyddyn ynghyd ag amod i beidio caniatáu gwerthu alcohol yn y limwsinau hir**

**(i) Bod y Rheolwr Trwyddedu'n cysylltu gyda Chymdeithas Limwsinau a Gyrwyr Cenedlaethol i geisio gwybodaeth ynglŷn ag ymestyn uchafswm limwsinau i 140 modfedd, a dirprwyo hawl i'r Rheolwr Trwyddedu mewn ymgynghoriad â'r Uwch Arweinydd Portffolio a  Chadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu i ymestyn uchafswm limwsinau hir I 140 modfedd os oeddynt yn hapus i wneud hynny.**

Dechreuodd y cyfarfod am 11:00a.m. a daeth i ben am 12.00 p.m.